# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrth 13/04/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Cai Rees Jones | Lleucu Jones |
| Alaw Llewelyn Roberts | Carys Roberts | Rhys Tudur | Janice Evans | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Catrin Roberts, Gito Williams, Rhys Llewelyn, Sharon Williams, Caren Jones, Gwynfor Williams.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Rhys Tudur – cyfraniad ariannol Cronfa Capel Bethania Pistyll
   Gruffydd Williams – cyfraniad ariannol Cronfa Capel Bethania Pistyll

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 09/03/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Cai Rees Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Gwenno – Tafarn yr Heliwr**
   Derbyniwyd ebost gan Gwenno Swyddog Datblygu Cymunedol Tafarn yr Heliwr yn gofyn os y gallai ymuno mewn cyfarfod CTN i gyflwyno ei hun gan ei bod yn newydd i'r swydd. Gofynnodd hefyd os y byddai'r aelodau yn cytuno iddi gael diweddariad ar sefyllfa Rhandiroedd y Ddôl yr un amser.
   Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Gwenno i drefnu cyfarfod rhwng CTN a Gwenno drwy zoom.
   Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Rhys Tudur
   **Dogfennau ar gyfer yr archwilaid mewnol**
   Gan fod y pwyllgor nesaf yn bwyllgor blynyddol fe fydd angen edrych ar, a cytuno, a pasio yr holl bolisiau/rheolau sydd gan y CTN e.e. Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Ffurflen Flynyddol a.y.y.b. felly fe fydd y clerc yn anfon y dogfennau yma i gyd i'r aelodau gyda agenda mis Mai, hefyd fe fydd angen penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd os oes angen.
   **Arwyddion Tirlithriad ar gyfer y traethau.**
   Gan fod yna amryw o dirlithriadau wedi digwydd yn ddiweddar a bod y clogwyni yma i gyd yn ansad cafwyd cynnig gan yr aelod lleol i CTN dalu am arwyddion i'w rhoi fyny ar y traethau yn rhybuddio pobol am hyn. Mae nifer o bobol yn eistedd reit o dan y clogwyni yma a gan fod rheolau covid yn cael eu llacio fe fydd mwy o ymwelwyr yn yr ardal sydd ddim yn gwybod am y broblem.
   Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Designer Signs i archebu 8 arwydd cyn gynted a phosibl a cael proof a dyfynbris i'w anfon i'r aelodau yn gyntaf er mwyn ceisio cael yr arwyddion i fyny cyn y Sulgwyn.
   Cynnig: Gruffydd Williams  Eilio: Arfon Hughes

5. **Pecyn Ymwybyddiaeth Iaith –** Rhys Tudur – Diweddariad
   Bu dau weithgaredd gan Menter Môn ac Arolisi Gwynedd Wledig i greu pecyn ond nid oes dim wedi ei wneud hyd yn hyn dim ond hel syniadau o sut i groesawu pobol i'r ardal. Cafwyd cais gan weithiwr i Hunaniaeth i gyfarfod gyda aelodau CTN i drio cael pecyn allan heb Menter Môn ac

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

Arloisi Gwynedd Wledig gan fod eu pecyn nhw yn becyn croeso ac y byddai'r pecyn gan Hunaniaeth yn becyn gwybodaeth/ymwybyddiaeth iaith sy'n dangos fod yna iaith a diwylliant gwahanol yma a'u bod yn ymwybodol ohonno cyn symud i'r ardal. Os oes unhryw un o aelodau CTN yn dymuno cymeryd rhan yn y pecyn gwybodaeth/ymwybyddiaeth iaith gan Hunaniaeth i adael i Rhys Tudur wybod.

6. **Polisiau Cynllunio oddi fewn i'r AHNE –** Rhys Tudur
Nid yw'r polisiau cynllunio gan Cyngor Gwynedd oddi fewn i'r AHNE ddigon llym i atal datblygiadau sy'n cael eu caniatau yn ein hardal megis trwyn Benar Abersoch sydd oddi fewn i'r AHNE ac yn codi tai enfawr werth miliwn o bunnoedd. Mae Parc Cenedlaethol Eryri hefo polisiau dipyn fwy caeth na'r AHNE ac felly yn ei gwneud yn anoddach i godi tai fel y rhai sydd yn Abersoch. Cynnig yw hwn i CTN alw ar Cyngor Gwynedd i fabwysiadu polisiau cadarnach o fewn yr AHNE ac felly atal y datgblygiadau anferthol yma a codi prisiau tai yr ardal allan o gyrraedd pobol leol. Ategodd yr aelodau lleol hefyd ei fod yn warthus nad yw penderfyniadau cynghorau cymuned/tref yn golygu dim yn y broses cynllunio a mwy o bwyslais yn cael ei roi ar aelodau o tu allan i'r ardal na sylwadau y cynghorau cymuned/tref oddi fewn i'r AHNE. Yn y Parc Cendlaethol mae polisi 7 sydd yn gwarchod tai traddodiadol fel sydd ym Mhen LLŷn, y bythynod bach gwyn galchog sydd yn rhan o'r tirlun ers blynyddoedd maith ac mae angen polisi o'r fath gan Cyngor Gwynedd i warchod tai traddodiadol yn yr AHNE.
Penderfyniad: Rhys Tudur a Gruffydd Williams i lunio llythyr i'r clerc ei anfon i Cyngor Gwynedd ac hefyd ceisio cael cefnogaeth gan y cynghorau cymuned/tref.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

7. **Cae Glandwr –** Cadeirydd
Gohirio tan bwyllgor mis Mai.

8. **Nosweithiau Tywyll 'Dark Skies' –** Gruffydd Williams
Mae'r aelod lleol yn cynrychioli CTN ar y cydbwyllgor ymgynghorol AHNE Llŷn a rhoddwyd cyflwyniad i'r cydbwyllgor ar y nosweithiau tywyll. Mae'n edrych yn dda ar bapur ond mae angen edrych i mewn i'r mater yn fwy manwl cyn gwneud penderfyniad. Mae'r diwydiant amaethyddol wedi buddsoddi'n drwm i fewn i'r diwydiant llaeth ac yn godro ddwy waith y dydd ac wrth gwrs yn y gaeaf mae'n golygu bod goleuadau llachar ymlaen ganddynt hwyr yn y prynhawn ac yn gynnar yn y bora. Mae Clwb Rygbi Pwllheli ym Modegroes yn cynnal ymarferiadau rygbi a hoci i bobol ifanc ar hyd a lled Pen Llŷn gyda'r nôs drwy'r gaeaf ac angen y goleuadau llachar i fedru cynnal yr ymarferiadau. Mae yna ddipyn o bobol ofn y tywyllwch ac fe fynegodd mwy nac un o'r aelodau sydd yn ferched eu bod yn erbyn hyn oherwydd diogelwch ac ni fyddent yn teimlo'n saff cerdded adref o dŷ ffrindiau neu o'r dafarn leol yn hwyr yn y nos heb oleuadau stryd.
Penderfyniad: pleidlais unfrydol i wrthod hyn a bod CTN yn erbyn cael eu dynodi fel ardal Awyr Dywyll ac i'r clerc ysgrifennu i Bleddyn Prys Jones Swyddog Gwasanaeth AHNE i basio penderfyniad CTN ymlaen iddo.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

9. **Mater mewnol parthed 'swyddog cyflogedig' –** Cadeirydd
Gohirio tan bwyllgor mis Mai.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298

**10. Rhandiroedd y Ddôl –** Clerc

Cafwyd ymateb gan Aneurin Môn Parry yn datgan nad yw'r gwaith a fwriedir ei wneud ar y Rhandiroedd yn disgyn o fewn telerau'r gytundeb. Yn dilyn hyn gyrrwyd ebost i Aneurin gan yr aelod lleol yn datgan fod ganddo gofnodion o Bwyllgor Cynllunio y cafodd cais Trem y Garn ei basio a bod yr ymgeisydd yn dangos ei barodrwydd i gyfrannu tuag at gwellianau i safle Rhandiroedd y Ddôl bryd hynny. Mae'n ymddangos fod y swyddogion wedi anwybyddu beth a ddywedwyd yn y Pwyllgor Cynllunio ac fe ddylai CTN ofyn am eglurhad sut fod swyddogion wedi dweud ar un llaw nad oes cyfraniad i fod tuag at y Rhandiroedd a dim ond at feusydd chwarae pan mae'r cofnodion yn datgan yn glir bod yr ymgeisydd yn fodlon cyfrannu at y Rhandiroedd.

Penderfyniad: y clerc i ofyn am eglurhad i'r hyn a drafodwyd yn y pwyllgor cynllunio a gofyn am ymateb brys.

Cynnig: Gruffydd Williams    Eilio: Arfon Hughes

**11. Meinciau –** Diweddariad

Cafwyd dyfynbris gan Mark Hughes i atgyweirio y 23 mainc yn Nefyn.

Penderfyniad: derbyn y dyfynbris gan ei fod yn rhesymol iawn a cario ymlaen gyda'r gwaith a'r clerc i anfon manylion meinciau Morfa ac Edern i'r aelod lleol iddo gael gofyn i Mark Hughes am ddyfynbris ar gyfer y rheiny hefyd.

Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Carys Roberts

Cafwyd diweddariad gan Carys Roberts am y 3 mainc wrth y Gof Golofn yn Nefyn, maent wedi cael eu gordro mewn lliw llwyd a plac ar bob un ohonynt hefo'r un geiriad sydd ar plac y meinciau ar Pen Peryn ond fe fydd cyfnod aros o tua 2 fis arnynt.

**12. Mynwent Morfa Nefyn –** Clerc

**Estyniad i'r Fynwent**

Derbyniodd y clerc wybodaeth gan y tir feddiannwr nad ydynt eisiau gwerthu y tir i gyd ond isho cadw y rhan sydd yn y gwaelod wrth y lôn a'u bod yn disgwyl cael o leiaf £30,000.00 amdano. Gofynnodd yr aelod lleol os oes modd i CTN wneud 'compulsory notice' ar y tir gan fod y swm yma yn rhu uchel o lawer.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i weld os oes modd i CTN wneud 'compulsory purchase' ar y tir a'r aelod lleol i ffendio allan pa adran fysa yn delio hefo hynny a gadael i'r clerc wybod.

**13. Croesfan ar Stryd Fawr Nefyn ger Siop Ashley** – Lleucu Jones

Cafwyd cais gan Lleucu Jones i gael croesfan o Siop Ashley yn Nefyn i lawr at Stryd y Plas gan ei bod yn berygl iawn i groisi yn y fan honno hefo ceir yn dod o 4 cyfeiriad a ceir yn parcio ar y llinellau melyn o flaen Siop Ashley. Dywedodd yr aelod lleol ei fod wedi ceisio cael croesfan yn y fan yma o'r blaen nôl yn 2015 ond yn ôl y swyddogion oedd yn y cyfarfod safle yr adeg honno ei fod yn annerbyniol rhoi croesfan mewn lle gyda gweledÐedd môr sâl o bob ffordd a'r Cyngor a fyddai'n gyfrifol petai damwain yn digwydd gan mai'r Cyngor oedd eisiau rhoi croesfan yna. Ond wedi dweud hynny mae'r aelod lleol o'r farn y dylai CTN ail gyflwyno'r mater a gweld be ddigwyddith. Cafwyd cwyn gan aelod arall o CTN fod pobol yn parcio ar y safle bws y tu allan i Spar yn Nefyn ac yn ei gwneud yn anodd i geir fynd i fewn ac allan o Stad Trem y Garn sydd dros y ffordd ac yn berygl iawn wrth drio croisi'r stryd hefyd, ac fe addawodd yr aelod lleol edrych i fewn i'r mater. Dywedodd

hefyd nad oes unrhyw fath o orfodaeth i stopio pobol rhag parcio ar linellau melyn dwbwl ar draws Nefyn yn gyffredinol, mae'n digwydd drwy'r amser ac mi fydd yn fwy o broblem drost yr haf.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i'r clerc i yrru llythyr i Cyngor Gwynedd yn gofyn am groesfan.
Cynnig: Lleucu Jones Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**14. Ymatebion y cynghorau tref/cymuned i'r llythyr 'Baw Ci' –** Clerc
Yn dilyn i'r clerc yrru llythyr allan i Gyngor Cymuned Llanengan, Llanbedrog a Cyngor Tref Pwllheli ynglŷn â'r syniad o gyd-gyflogi gweithiwr i fynd o amgylch i blismona'r broblem baw ci ac hefyd i godi sbwriel i fyny yr un adeg cafwyd ymateb gan ddau Gyngor. 'Roedd Cyngor Cymuned Llanengan yn datgan bod trafodaeth wedi bod ar y mater ac mai eu penderfyniad nhw oedd y buasai'n anodd ei weithredu oherwydd maint Pen Llŷn e.e. y gallai bod mwy o alw arno fo/hi mewn un ardal â'r gost. Awgrymwyd hefyd efallai y buasai'n haws i Gynghorau Pen Llŷn gyfrannu i Cyngor Gwynedd gyflogi warden ychwanegol. Ymateb Cyngor Tref Pwllheli oedd eu bod yn cytuno mewn egwyddor ond bod ganddynt nifer o gwestiynnau i'w hateb ynglŷn â sut y byddai hyn yn gweithio. Maent hefyd wedi ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn datgan bod problem baw ci yn ein hardal a bod y gwasanaeth i atal hyn yn bell o gyrraedd y safon disgwyliedig ac yn gofyn i CTN wneud yr un peth.
Penderfyniad: y clerc i yrru llythyr i Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt gyflogi warden baw ci ychwanegol ac i ofyn i gynghorau Pen Llŷn wneud cyfraniad tuag ato.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

## 15. Gohebiaeth a Dderbyniwyd

- **Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen –** cyfraniad ariannol
  Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £500.00 – Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Rhys Tudur
- **Cronfa Capel Bethania Pistyll** – cyfraniad ariannol
  Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £1,000.00 – Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Alaw Llewelyn Roberts
- **Cylch Meithrin Nefyn** – cyfraniad ariannol
  Penderfyniad: rhoi'r arian i'r cylch meithrin ond Gruffydd Williams i gael amcanbrisiau gan gontractwyr lleol i wneud y gwaith a derbyn y pris rhataf, tynnu y £504 sydd wedi ei godi yn barod at y gwaith o'r cyfanswm a gwneud siec am y gwahaniaeth a'r clerc i adael i'r Cylch Meithrin wybod – Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Lleucu Jones
- **Cymorth Canser Macmillan –** cyfraniad ariannol
  Penderfyniad: dim cyfraniad.
- **NSPCC –** cyfraniad ariannol
  Penderfyniad: dim cyfraniad.

**16. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

**Ceisiadau Diweddarach**
Dim.

**17. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1030.49
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £30.64
- Un Llais Cymru – aelodaeth 2021-2022 - £531.00
- John Gwynfor Jones – agor bedd Laura Catherine Williams - £400.00
- Ian Williams Gwasanaeth Coed Llŷn – torri coed ger Ysgol Edern - £948.00
- Cliff Hughes – gwaith ychwanegol - £109.60
- D. M. Parry – Taliad cyntaf Mynwent Nefyn - £850.00 + Taliad cyntaf Mynwent Morfa - £170.00 = £1020.00
- Clerks & Councils Direct – Local Councils Update Renewal - £100.00
- Npower – trydan Llyfrgell Nefyn mis Mawrth - £131.97
  Penderfyniad: Talu pob anfoneb
  Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**18. Taliadau wedi eu derbyn:**

- Grant Canol Trefi - £1838.05

Cafwyd cais gan yr aelod lleol i aelodau Nefyn i edrych ar y ddau ddyfynbris a gafwyd i wneud yr 'hop scotch' a 'snakes and ladders' yn Cae Chwarae Bryn Mynach ac i wneud penderfyniad yn sydyn gan fod y gwaith angen gael ei gwblhau er mwyn i'r plant gael budd ohonno yn y misoedd i ddod.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298